
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1028

Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015

RHAN E

PWERAU RHEOLI'R TRIBIWNLYS

Tystiolaeth a chyflwyniadau

30.—(1) Caiff y Tribiwnlys roi cyfarwyddiadau ar—

- (a) y materion y mae'n ofynnol cael tystiolaeth neu gyflwyniadau yn eu cylch,
- (b) natur y dystiolaeth neu'r cyflwyniadau sy'n ofynnol,
- (c) unrhyw gyfyngiadau ar dystiolaeth neu gyflwyniadau sy'n gyson â'r amcan pennaf,
- (d) pa un a fydd y partïon yn cael caniatâd i ddarparu tystiolaeth arbenigol ai peidio, neu a yw'n ofynnol iddynt wneud hynny, ac os felly, a oes raid i'r partïon ar y cyd benodi un arbenigwr i ddarparu tystiolaeth o'r fath,
- (e) y modd y gall unrhyw dystiolaeth neu gyflwyniadau gael eu darparu, a chaiff hynny gynnwys cyfarwyddyd iddynt gael eu rhoi—
 - (i) ar lafar mewn gwrandawriad, neu
 - (ii) fel cyflwyniadau ysgrifenedig neu ddatganiad tyst ysgrifenedig, a
- (f) yr amser erbyn pryd y bydd rhaid darparu unrhyw dystiolaeth neu gyflwyniadau.

(2) Caiff y Tribiwnlys ystyried bod methiant person, sy'n barti yn y cais, i gydymffurfio â gofyniad sy'n cael ei wneud o dan baragraff (1), yn absenoldeb unrhyw reswm da dros fethiant o'r fath, yn fethiant i gydweithredu â'r Tribiwnlys.

(3) Caiff y Tribiwnlys—

- (a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b)(iii), dderbyn unrhyw dystiolaeth berthnasol, pa un a fyddai'r dystiolaeth honno'n dderbyniadwy ai peidio mewn treial sifil yng Nghymru neu Loegr,
- (b) allgáu tystiolaeth a fyddai, fel arall, yn dderbyniadwy—
 - (i) os na chafodd y dystiolaeth ei darparu o fewn yr amser a ganiateid gan gyfarwyddyd,
 - (ii) os darparwyd y dystiolaeth, rywfodd arall, mewn modd nad oedd yn cydymffurfio â chyfarwyddyd, neu
 - (iii) os byddai'n annheg, rywfodd arall, pe derbynnid y dystiolaeth.